

At y Golygydd

40 Tal y Cae
Tregarth, Bangor

Annwyl Olygydd

Nodau Clustiau Defaid Tir Iarll

Credaf y byddai'r daflen hon yn werth ei chynnwys yn y *Casglwr*. Alwyn Hughes o Langadfan ddechreuodd holi am lyfrau nodau clustiau yn Ffair Lyfrau Aberystwyth a chofiais fod hon yma yn rhywle - roedd ewythr fy ngwraig yn berchen ar un o'r ffermydd yn y rhestr. Byddai o ddiddordeb i ogleddwyr gymharu'r termau a ddefnyddir â'u rhai hwy. Mae'r casgliad o enwau ffermydd ynddo'i hun yn werthfawr iawn hefyd. Fe'i lluniwyd gan Cadrawd (Thomas Christopher Evans, Llangynwyd 1846-1918) gof a hanesydd lleol y mae ei gyfraniad i astudiaethau gwerin wedi ei bwysu yn fanwl iawn yng nghyflwr ddiweddar Allan James - *Diwylliant Gwerin Morgannwg*, Gwasg Gomer, 2002. Mae'n anodd rhoi dyddiad pendant iddi, diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mae'n debyg.

Cofion
IOLO WYN WILLIAMS

Cenarth
Pwllheli
Gwynedd

Annwyl Olygydd

Wedi treulio llawer o oriau pleserus yn olrhain hanes teuluol (yn hynod o amatur) oedd ynghlwm gyda llongau Nefyn yr oedd erthygl Nan Parry yn rhifyn Gwanwyn y *Casglwr* o ddiddordeb arbennig i mi.

Mae cyfeiriad Mrs Parry at 'Griffiths & Co' yn cyfeirio at gwmi fy hen daid Captan Owen Griffith, 'Prosper' oedd yn hyw yn Plas, Nefyn. Ei frawd oedd Captan John Griffith, 'Cossack', hen-daid Miss Jane Eirwen Jones, Nefyn a Richard Edgar Jones, Pwllheli.

Ganwyd Owen Griffith yn 1815 ac aeth i'r môr yn hogyn deuddeg oed. Prin iawn oedd ei atgofion am ei dad, Captan John Griffith, canys fe'i collwyd trwy longdrylliad ger Fflint, pan oedd yn ifanc iawn. Trist yw meddwl, er ymdrechion llawer o aelodau'r teulu dros y blynyddoedd,

methiant llwyr oedd cael hyd i'w garreg fedd. Yr oedd trefi bach glan môr Cymru yr adeg honno yn frith o longwyr. Yng nghanol y ganrif ddwytha, er enghraifft, yr oedd dros gant a hanner o gapteiniaid yn aelodau yn Capel Isa', Nefyn, pob un â'i stori a phrofiadau diddorol.


Pwynt arall o ddiddordeb personol i mi oedd fod Owen Griffith ar ôl colli ei wraig, wedi prodi yn Capel Salem, Pwllheli yn 1884 â Mrs Ellen Ellis, gweddw adeiladydd y 'Robert Williams'.

Cartrefodd Owen yn ei chartref yn Rhos, Morfa Nefyn.

Fel atodiad byr, fe rentiodd Owen Griffith ei garref - 'Plas' - i'w nai, Captan Owen Griffith. Mae'r rhai sy'n cloddio hanes teuluol, yn sicr o gydymdeimlo gyda'r problemau oedd yn dilyn ond stori arall yw honno.

Yn gywir
OWEN J. COWELL

PRICE—ONE SHILLING.



TIR IARLL'S SHEEP EAR MARKS (NODAU CLUSTIAU DEFAID TIR IARLL)

Including BETTWS, LLANGYNWYD and MARGAM PARISHES.

By "CADRAWD."

"Arglwyddes penna'r gwleddoedd,—addefir,
Yw'r ddaflad drwy'r oesoedd;
A'i chwif llawn a gawn yn g'oeidd
Yn ysgafu gynnes wisgoedd."

LEWISTON.

Llenyddiaeth Clustiau Defaid yn Iarll	
	1 Yclust llaw.
	2 Yclust oddiwrthom.
	3 Tori blaen y clust llaw a holltir bon.
	4 Cwartero dan y clust oddiwrthom.
	5 Tori'r clust llaw yn y bon.
	6 Tori blaen y clust oddiwrthom.
	7 Twll powysad.
	8 Bwlch tri-thornad yn blaen y clust llaw.
	9 Bwlch penbys oddiar y clust llaw.
	10 Cwarter oddiar y clust oddiwrthom.
	11 Clustwen-fforch o dan y clust oddiwrthom.
	12 Tori blaen y clust llaw a holltir bon yn y dri.
	13 Tori blaen y clust oddiwrthom a chwartero daga.
	14 Sciw o dan y clust llaw.
	15 Hollti blaen y clust oddiwrthom.
	16 Dou gwarter, neu gwarter dwbl, o dan y clust llaw.
	17 Cwt mawr, neu gil-hollt, o dan y clust oddiwrthom.
	18 Hollti blaen y clust llaw yn y dri.
	19 Tori blaen y clust oddiwrthom, a chwarter ysgaf (ysgaf) oddi larso ag oddi tago.
	20 Sciw oddiar a sciw oddi dan y clust llaw.
	21 Cwt cyllathryklu o dan y clust oddiwrthom.
	22 Tori blaen y clust llaw a dou gwartero daga.
	23 Tori blaen y clust oddiwrthom a sciw oddi tago.
	24 Clustwen-fforch yn blaen y clust llaw.
	25 Cwarter ysgaf oddiar y clust oddiwrthom, a holltiad tago.
	26 Cwarter oddiar a chwartero daga y clust llaw.
	27 Hollti blaen y clust oddiwrthom a chwarter ysgaf oddi tago aq o daga.

Clustiau Defaid, Tir Iarll.